Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Beth yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil?

Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru, ac yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Bydd y Comisiwn, a fydd yn weithredol yn 2024, yn gyfrifol am gyllido, goruchwylio, ansawdd a rheoleiddio pob addysg drydyddol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:

- Addysg bellach (AB), gan gynnwys colegau a chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir
- Addysg uwch (AU), gan gynnwys ymchwil ac arloesi
- Addysg oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned
- Prentisiaethau a hyfforddiant.

## Gweledigaeth Strategol

Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn darparu sector Addysg Drydyddol ac Ymchwil fwy ymgysylltiol, rhagorol a theg yng Nghymru sy'n blaenoriaethu buddiannau dysgwyr ac yn cyfrannu at ffyniant cenedlaethol. Rydym am weld system gydgysylltiedig yng Nghymru sy'n hawdd i bob dysgwr ei lywio, sy'n cael ei gwerthfawrogi gan y cyhoedd, yn creu cymdeithas fedrus iawn, yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, sy'n cael ei chydnabod yn fyd-eang am addysg, hyfforddiant, ymchwil ac arloesi rhagorol, ac sydd â chenhadaeth ddinesig wrth ei chalon.

Bydd ein dull gweithredu yn galluogi dysgwyr i symud yn ddi-dor o addysg orfodol i addysg drydyddol, gan gyfrannu at ein cenhadaeth genedlaethol ar gyfer diwygio addysg.

## Cymraeg 2050

Rhagwelir y bydd y Comisiwn yn cael ei alluogi i hwyluso newid trawsnewidiol ar draws y sector a chyfrannu'n sylweddol at gyflawni ein targedau yn *Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg* yn ogystal â gallu monitro cynnydd yn erbyn targedau. Rhan o hyn fydd creu 'newid gêr' i ehangu'r arlwy cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o fewn addysg drydyddol. Ochr yn ochr â hyn y nod yw y bydd y Comisiwn yn creu mwy o gyfleoedd i bob dysgwr mewn addysg drydyddol ddatblygu ac ehangu eu dealltwriaeth a'u hymgysylltiad â'r iaith Gymraeg a'r bywyd diwylliannol Cymraeg, ac yn hollbwysig, mwy o gyfleoedd i ddysgwyr astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

# TAFLEN FFEITHIAU 5: SUT BYDD SEFYDLU'R *COMISIWN ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL* YN *EFFEITHIO AR ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG?*

## Dyletswyddau strategol

Mae'r Ddeddf yn nodi un ar ddeg o ddyletswyddau strategol y mae'n ofynnol i'r Comisiwn arfer ei swyddogaethau oddi tanynt. Y dyletswyddau cyfreithiol hyn yw'r dibenion strategol hirdymor ar gyfer y system addysg drydyddol ac maent yn adlewyrchu gweledigaeth y Llywodraeth.

Ar ôl derbyn ei flaenoriaethau strategol, fel y nodir yn y datganiad o flaenoriaethau sydd i'w gyhoeddi gan Weinidogion Cymru yn unol â'r Ddeddf, bydd yn ofynnol i'r Comisiwn gynhyrchu a chyhoeddi cynllun strategol sy'n nodi sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r blaenoriaethau strategol a chyflawni ei ddyletswyddau strategol, a chymryd pob cam rhesymol i weithredu'r cynllun strategol.

Mae hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r dyletswyddau strategol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn:

- annog y galw am addysg drydyddol a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg ac annog pobl i gymryd rhan mewn addysg Gymraeg
- cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb y galw
- annog darparu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Meithrin galw am addysg cyfrwng Cymraeg

Bydd disgwyl i'r Comisiwn wneud mwy na dim ond bodloni'r galw presennol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd hefyd yn mynd ati i adeiladu'r galw am addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn annog unigolion i gymryd rhan mewn addysg Gymraeg. Yr amcan yw ehangu'r dewis i ddysgwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mater i'r Comisiwn fydd penderfynu sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni.

## Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Yn unol â'r Ddeddf, mae Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cael ei ddynodi i gynghori'r Comisiwn ar ei ddyletswydd strategol i hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae gan y Coleg rwydweithiau helaeth eisoes a chyfoeth o brofiad o ddatblygu a chefnogi addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg, ynghyd â phrofiad o weithio gyda Llywodraeth Cymru mewn cyd-destun polisi sy'n gysylltiedig â darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae dynodiad y Coleg yn galluogi'r Comisiwn i elwa ar ei arbenigedd a sicrhau y gall y ddau gorff gydweithio yn strategol i adeiladu'r galw am addysg drydyddol, ac annog unigolion i gymryd rhan mewn addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Cyllido addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg

Mae'r Ddeddf yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddyrannu adnoddau ariannol i'r Comisiwn ar gyfer pob math o addysg drydyddol ac mae'n galluogi'r Comisiwn i ddarparu cyllid i ddarparwyr addysg i addysgu cyrsiau yn y Gymraeg ac i gefnogi costau addysgu yn Gymraeg.

Gall y Comisiwn hefyd ddarparu cyllid penodol i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys hyfforddiant i athrawon, hyrwyddo cyfleoedd dysgu i ddarpar ddysgwyr, datblygu adnoddau, yn ogystal ag efallai ariannu ymchwil ar addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Rhagwelir y bydd hefyd yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng academaidd, gan gynnwys cefnogi ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd hefyd mewn sefyllfa dda, ar y cyd â'r Coleg, i nodi sectorau o fewn yr economi lle mae prinder unigolion sy'n gallu ymgymryd â'u rôl yn ddwyieithog. Efallai y bydd y Comisiwn yn penderfynu blaenoriaethu cyrsiau ar gyfer sectorau nad oes ganddynt staff â sgiliau Cymraeg, gan gynyddu argaeledd darpariaeth dechnegol a galwedigaethol cyfrwng Cymraeg a chefnogi dysgwyr i ymgysylltu'n hyderus â'r rhain.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i allu dyrannu adnoddau ariannol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu darpariaeth drydyddol cyfrwng Cymraeg.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49228